| | | | |
|---|---|---|---|
| At: | Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol | Dyddiad: | Dydd Mawrth, 18 Medi 2012 |
| | | Rhif Union: | 01824712575 |
| | | ebost: | dcc_admin@denbighshire.gov.uk |

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL, DYDD MERCHER, 26 MEDI 2012** am **9.30 am** yn **YSTAFELL GYNHADLEDD 1B, NEUADD Y SIR, RHUTHUN**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

**AGENDA**

**RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FYNYCHU RHAN HON Y CYFARFOD**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGAN BUDDIANNAU**

Yr aelodau i ddatgan unrhyw fuddiannau personol neu fuddiannau sy'n rhagfarnu unrhyw fusnes i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS**

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys dan Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**4 COFNODION** (Tudalennau 3 - 10)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 5ed Medi 2012.

**5 DATGANIAD CYFRIFON 2011/2012** (Tudalennau 11 - 14)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cyllid ac Asedau (copi'n amgaeëdig) yn gofyn am gymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon yn ffurfiol.

**AELODAETH**

**Y Cynghorwyr**

Raymond Bartley
Stuart Davies
Martyn Holland
Gwyneth Kensler
Jason McLellan
David Simmons

**Aelod Lleyg**

Paul Whitham

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Prif Weithredwr / Chief Executive Mohammed Mehmet PhD BSc
Prif Swyddfeydd Y Cyngor/Council Offices, Rhuthun/Ruthin, Sir Ddinbych/Denbighshire LL15 1YN.
Ffôn/Tel (01824) 706234 Ffacs/Fax (01824) 707446

# PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd yn Ystafell Gynadledda 1a, Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, Dydd Mercher, 5 Medi 2012 am 9.30 am.

## PRESENT

Councillors Raymond Bartley, Stuart Davies, Gwyneth Kensler, Jason McLellan (Cadeirydd) a/ac David Simmons

## ALSO PRESENT

Y Cynghorydd Julian Thompson Hill, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd (RGW), Pennaeth Gwasanaethau Archwilio Mewnol (IB), Rheolwr Archwilio (BS), Pennaeth Cyllid ac Asedau (PM), Cyfrifydd Technegol (RJ) a Gweinyddwr y Pwyllgor (KEJ) a Cynrychiolydd Swyddfa Archwilio Cymru (DO & AV)

**1 YMDDIHEURIADAU**

Paul Whitham, Aelod Lleyg

**2 DATGAN BUDDIANNAU**

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau personol na buddiannau niweidiol.

**3 MATERION BRYS**

Nid oedd yna unrhyw faterion brys.

**4 COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion y Cyfarfod Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd ar Orffennaf 11, 2012.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Orffennaf 11, 2012 a'u cadarnhau'n gofnod cywir.*

**5 PENODI CYNRYCHIOLYDD AR Y GRŴP CYDRADDOLDEB CORFFORAETHOL**

Rhoddodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd drosolwg byr o gyfrifoldebau'r Grŵp Cydraddoldeb Corfforaethol a fyddai'n cyfarfod yn chwarterol ynghyd â manylion aelodaeth. Ceisiwyd enwebiadau ar gyfer cynrychiolydd a dirprwy penodol o'r pwyllgor hwn i fod yn rhan o'r Grŵp hwnnw.

Yn dilyn ystyriaeth –

***PENDERFYNWYD*** *penodi'r Cynghorydd Martyn Holland yn gynrychiolydd y pwyllgor ar y Grŵp Cydraddoldeb Corfforaethol a phenodi'r Cynghorydd Stuart Davies fel aelod dirprwy.*

## 6 ADRODDIAD CYNNYDD ARCHWILIO MEWNOL

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Archwilio Mewnol (PGAM) adroddiad (a gylchredwyd yn flaenorol) i ddiweddaru aelodau ar gynnydd diweddaraf y Gwasanaeth Archwilio Mewnol o ran cyflenwi gwasanaeth, darparu sicrwydd, adolygiadau a gwblhawyd, perfformiad ac effeithiolrwydd gyda gyrru gwelliant.

Fe amlygodd y Pennaeth Gwasanaethau Archwilio Mewnol rannau arbennig o'r adroddiad fel a ganlyn –

- cynnydd gyda chyflenwi'r Strategaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2012/13
- adroddiadau archwilio mewnol diweddar a gyhoeddwyd ynglŷn ag Ysgol Dinas Brân, Llangollen a Darpariaeth Dysgu Cymunedol Oedolion – Llywodraeth Cymru 2011 – 12
- ymateb rheolaeth i faterion a godwyd gan Archwilio Mewnol
- Perfformiad Archwilio Mewnol a mesurau allweddol.

Nododd Aelodau'r cynnydd da a wnaethpwyd yn erbyn y Strategaeth Archwilio mewnol a'r angen i adolygu'r Strategaeth fel y bo'n briodol er mwyn adlewyrchu blaenoriaethau cyfnewidiol y Cyngor. Roedd y pwyllgor yn falch hefyd o nodi'r ddau adroddiad archwilio positif a dderbyniwyd ers eu cyfarfod diwethaf yn dangos cyfraddiad sicrwydd uchel. Cyfeiriodd Pennaeth y Gwasanaethau Archwilio Mewnol at nifer o adroddiadau archwilio a oedd yn agos at eu cwblhau ac a fyddid yn cael eu cylchredeg i aelodau'r pwyllgor yn fuan. O ran ymateb rheolaeth i faterion a godwyd gan Archwilio Mewnol nid oedd yna unrhyw gamau'n dal ar ôl ar hyn o bryd nac wedi mynd dros y terfyn amser o dri mis ac roedd y system yn gweithio'n dda. I gloi cyfeiriwyd at y mesurau allweddol a oedd ar y targed i'w cwblhau.

Yn ystod ystyriaeth o'r adroddiad fe eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Archwilio Mewnol faterion penodedig mewn ymateb i gwestiynau aelodau arnyn nhw, yn enwedig o ran statws a chylch gwaith gwahanol aseiniadau archwilio. Fe drafododd y pwyllgor hefyd nifer o faterion penodol efo Pennaeth y Gwasanaethau Archwilio Mewnol fel a ganlyn -

- fe ystyriodd aelodau'r chwe risg uchel yn y Gofrestr Risgiau Corfforaethol ac fe adroddodd PGAM ar gynnydd y gwaith yn y meysydd unigol hynny. Fe atgoffaodd aelodau y byddai'r Gofrestr yn cael ei diweddaru'n rheolaidd a byddai Archwilio Mewnol yn asesu a oedd y risgiau'n cael eu rheoli'n gadarn ac yn cael sylw. Trafodwyd y ddau risg canlynol yn fanylach –

    - y risg nad oedd seilwaith TGCh strategol yn galluogi gwelliant ac yn cynorthwyo newid -roedd Swyddfa Archwilio Cymru wedi gwneud peth gwaith ar y Strategaeth TGCh a fyddai'n lleihau swm y gwaith a fyddai'n ofynnol gan y Gwasanaethau Archwilio Mewnol

    - y risg fod yr amser a'r ymdrech a fuddsoddwyd mewn cydweithio'n anghymesur â'r manteision a wireddwyd - fe amlygodd aelodau

bwysigrwydd y darn yma o waith a phryderon fod rhai meysydd cychwynnol o gydweithio wedi dod i ben, a'r angen i sicrhau fod cydweithio'n berthnasol ac yn briodol. Esboniodd PGAM fod gwaith Archwilio Mewnol yn cael ei gynllunio fel rheol dri mis ymlaen llaw heb unrhyw ddyddiad dechrau wedi ei ddyrannu ar gyfer yr archwiliad hwn hyd yma. Roedd yn ymwybodol fod rhai gwasanaethau wedi cynnal hunanasesiadau ar weithio cydweithredol y gellid eu defnyddio. Esboniwyd bod y prosiectau cydweithredol cynharach wedi eu dechrau heb y prosesau cadarn a oedd wedi eu cyflwyno ers hynny dan y Fframwaith Partneriaeth. Roedd achos busnes ac asesiad gan y Bwrdd Cydweithredol yn ofynnol ar gyfer prosiectau newydd. Ychwanegodd Cynrychiolydd Swyddfa Archwilio Cymru (AV) ei bod yn bwysig sicrhau eglurder a mapio prosesau ar gyfer trefniadau partneriaeth a'r ffordd yr oedden nhw'n cael eu rheoli.

- O ran Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol (gwasanaeth cydweithredol rhwng Sir Ddinbych a Chonwy) esboniodd y PGAM y gofynnwyd i Archwilio Mewnol edrych ar y gwasanaeth efo Tîm Archwilio Conwy oherwydd materion ariannol a nodwyd yng Nghonwy. Fe sicrhaodd y pwyllgor fod gwasanaeth Cludiant Cartref i'r Ysgol Sir Ddinbych yn dda a bod unrhyw broblemau a nodwyd yn rhai yn ardal Conwy. Mewn ymateb i gwestiynau cadarnhaodd PGAM na fyddai unrhyw anawsterau ariannol a brofwyd gan Gonwy'n effeithio ar Sir Ddinbych ac y byddai'r adroddiad archwilio terfynol ar gael yn gyhoeddus. Nodwyd y cafwyd peth cyhoeddusrwydd negyddol ynglŷn â gwasanaeth Conwy a mynegwyd pryderon y gallai enw da Sir Ddinbych ddioddef drwy gysylltiad unwaith y cyhoeddid yr adroddiad. Er mwyn lliniaru'r potensial o gyhoeddusrwydd negyddol awgrymwyd y gallai datganiad i'r wasg neu ddull tebyg fod yn ddefnyddiol a bod papur briffio i'w roi i aelodau. Awgrymwyd hefyd y dylid ystyried perfformiad gwasanaeth pan fyddid yn asesu rhinweddau cydweithredu. Cytunodd PGAM i godi rheolaeth y materion hynny'n uniongyrchol â'r Pennaeth Priffyrdd a Seilwaith ar y Cyd a chyfeiriodd at y bwriad o gyflwyno adroddiad archwilio terfynol i Bwyllgor Archwilio Conwy ar Fedi 25. Felly cytunodd aelodau y byddai'n amserol i'r pwyllgor hwn ystyried yr adroddiad yn eu cyfarfod ar Fedi 26.

- Cyfeiriwyd at effaith y diwygio lles ar y sir a chadarnhaodd y Rheolwr Archwilio fod gwaith wedi ei wneud yn Refeniw a Budd-daliadau ynglŷn â hynny. Roedd Penaethiaid Refeniw a Budd-daliadau a Chyllid ac Asedau wedi bod mewn cyfarfodydd y Grwpiau Aelodau Ardal i rannu gwybodaeth ystadegol ac i drafod yr effaith ar bob ardal. Roedd gwybodaeth felly ar gael i'r holl aelodau.

I gloi dywedodd PGAM y dylid dwyn unrhyw faterion y dymunai aelodau eu codi i sylw Archwilio Mewnol neu'r maes gwasanaeth perthnasol i ymchwilio iddyn nhw yn y lle cyntaf.

***PENDERFYNWYD –***

*(a)* *yn amodol ar sylwadau'r aelodau uchod, derbyn a nodi'r adroddiad ar gynnydd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol*

(b) *cyflwyno'r adroddiad archwilio terfynol ar y gwasanaeth Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol i gyfarfod nesaf y pwyllgor ar Fedi 26, 2012.*

**7 RHAGLEN WAITH PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL**

Cyflwynwyd adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd (PGCD) (a gylchredwyd yn flaenorol) yn amlinellu blaenraglen waith y pwyllgor.

Dywedodd PGCD na fyddai'r Adroddiad Blynyddol ar 'Eich Llais' ar gael ar gyfer cyfarfod nesaf y pwyllgor ar Fedi 26 a'i fod wedi ei drefnu wedyn ar gyfer Tachwedd 14. Fe atgoffaodd y Pennaeth Gwasanaethau Archwilio Mewnol yr aelodau fod angen trefnu'r adroddiad archwilio ar Gludiant o'r Cartref i'r Ysgol ar gyfer Medi 26. Dywedodd Cynrychiolydd Swyddfa Archwilio Cymru (AV) y byddai yna adroddiadau yn y dyfodol gan Swyddfa Archwilio Cymru a byddai'n trefnu i'r rhain gael eu cynnwys o fewn rhaglen waith y pwyllgor fel y bo'n addas.

Cytunodd Aelodau i'r diwygiadau a dymunent gadw hyblygrwydd eu rhaglen waith i ganiatáu cynnwys unrhyw faterion brys neu faterion a oedd yn ymddangos ac a oedd yn gofyn am sylw'r pwyllgor. O ganlyniad -

***PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r flaenraglen waith yn amodol ar y diwygiadau a'r cytundebau y cyfeirir atyn nhw uchod.*

Yn y pwynt yma (10.05 a.m.) fe ohiriwyd y pwyllgor er mwyn toriad am luniaeth.

**8 ADRODDIAD RHEOLI'R TRYSORLYS**

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol dros Gyllid ac Asedau'r adroddiad (a gylchredwyd yn flaenorol) a rhoddodd beth gwybodaeth gefndir ar swyddogaethau rheoli trysorlys y Cyngor a swyddogaeth a chyfrifoldeb y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ynglŷn â hynny. O ystyried graddfa a chymhlethdod rheolaeth y trysorlys, byddid yn darparu diweddariadau rheolaidd a hyfforddiant i'r pwyllgor i gynorthwyo dealltwriaeth aelodau ac i alluogi craffu effeithiol y swyddogaethau hynny.

Tynnodd y Pennaeth Cyllid ac Asedau sylw aelodau at amserlen o adroddiadau a hyfforddiant ar gyfer y pwyllgor (paragraff 2.2.1 yr adroddiad) ynghyd â threfniadau adrodd i'r Cyngor a'r Cabinet. Wrth dywys aelodau drwy'r adroddiad, esboniodd y Pennaeth Cyllid ac Asedau bob un o'r materion yn fanwl i gynorthwyo dealltwriaeth y pwyllgor o'r cymhlethdodau sy'n ymglymedig o fewn gweithgareddau rheoli'r trysorlys a rhoi gwybodaeth weithio o'r swyddogaethau arbennig hynny. Roedd y prif adroddiad yn cynnwys adroddiadau unigol ar y meysydd canlynol -

**Papur ar Fenthyca (Atodiad 1) –**

Cyfeiriodd y PCA at amseroldeb y papur hwn o ystyried y byddai aelodau'n trafod cyllido'r Cynllun Corfforaethol ar ôl y Cyngor Llawn yr wythnos ddilynol. Wrth ystyried dyheadau'r Cyngor am fuddsoddiad cyfalaf ar gyfer blynyddoedd y dyfodol roedd yn bwysig fod gan aelodau ddealltwriaeth o fenthyca. Esboniodd y PCA pam

fod y Cyngor yn benthyca a sut y byddai'n benthyca a rhoddodd fanylion o'r strategaeth a fabwysiedir.

Roedd y cyflwyniad ar fenthyca'n cwmpasu –

- cefndir i'r sefyllfa gyfreithiol o ran benthyca
- caniateir benthyca i ddibenion cyfalaf yn unig i adeiladu asedau newydd neu i wella/atgyweirio asedau presennol
- gellid ariannu gwariant cyfalaf gan grantiau, cyfraniadau a derbyniadau cyfalaf ond roedd yn rhaid cyfarfod ag unrhyw ddiffyg drwy fenthyca
- y gwahanol fathau o fenthyca (Mewnol/Allanol) ac elfennau a chyfrannau pob math ynghyd â lefel y benthyca dros y pum mlynedd ddiwethaf
- lefel bresennol y ddyled a manylion y benthyciadau unigol gwahanol sy'n amrywio yn eu hyd o 1 flynedd i 50 mlynedd ynghyd â sail y benthyciadau hynny (Aeddfedrwydd/Rhandaliad Cyfartal Prifswm/Blwydd-dal) a phroffil aeddfedrwydd y ddyled honno gyda manylion y cyfraddau llog sy'n daladwy
- manylion elfennau'r Gyllideb Ariannu Cyfalaf (oddeutu £12m) a roddwyd o'r neilltu i dalu cost benthyca.
- yr egwyddorion yr oedd strategaeth reoli'r trysorlys yn seiliedig arnyn nhw i sicrhau nad oedd y Cyngor yn benthyca mwy nag a oedd ei angen ac y gallai ei fforddio i dalu'r ddyled yn ôl. Roedd hynny'n cynnwys gosod dangosyddion darbodus i bennu cyfyngiadau benthyca ac i fesur fforddiadwyedd
- ffynhonnell ddyled gyfredol y Cyngor gyda benthyciadau'n gysylltiedig â ffrydiau refeniw'r dyfodol a chyfeiriad at gyfraddau llog ar gyfer benthyciadau a'u cyfrifiadau.

Manteisiodd Aelodau ar y cyfle i ofyn cwestiynau a thrafod nifer o faterion efo'r Pennaeth Cyllid ac Asedau, yn codi o'i gyflwyniad a'i ymateb oedd -

- o'i gymharu ag awdurdodau lleol eraill roedd cyfrannedd benthyca'r Cyngor rywle yn y canol, ond roedd wedi ei ystumio braidd gan yr arian a wariwyd ar y stoc tai fel y'i nodir yn y Cyfrif Refeniw Tai
- roedd cyfyngiad credyd y Cyngor yn cael ei osod gan y Cyngor Llawn
- cadarnhaodd y bwriad i gynnwys oblygiadau refeniw wrth gostio'r Cynllun Corfforaethol
- ymhelaethodd ar y Fenter Cyllid Preifat a oedd wedi ei defnyddio'n flaenorol gan awdurdodau lleol fel dull o ariannu cynlluniau ac nid oedd hynny'n boblogaidd bellach
- adroddodd ar gronfeydd wrth gefn a gweddillion y Cyngor gan ddweud fod oddeutu £7.2m ar gael mewn gweddillion cyffredinol gyda thros £20m mewn cronfeydd wrth gefn a oedd wedi eu rhoi o'r neilltu ar gyfer dibenion penodedig.

Nododd Aelodau hefyd mai awdurdodau rhagflaenol yn y 1980au a'r 1990au a oedd yn gyfrifol am fwyafrif llethol dyledion y Cyngor (oddeutu £100m yn erbyn cyfanswm benthyciad o £134.39m). Fe ymhelaethodd y Pennaeth Cyllid ac Asedau ar effaith y gwahanol fathau o fenthyciadau ar gyllid y Cyngor a thrafododd yr aelodau ragoriaethau pob math ar fenthyciad. Fe fu yna symud yn y blynyddoedd diwethaf o Fenthyciadau Aeddfedrwydd i Randaliadau Cyfartal o Brif Fenthyciadau i

sicrhau fod y ddyled yn cael ei thalu'n rheolaidd. Ystyriodd Aelodau'r gwahanol risgiau sy'n gysylltiedig â benthyca ynghyd â'r manteision y gellir eu cyflawni o ganlyniad. Fe drafodwyd enghreifftiau o fuddsoddiadau cyfalaf yn unol â blaenoriaethau Cyngor yn cynnwys ysgolion, priffyrdd a thai gofal ychwanegol a'r cynilion potensial a gynhyrchir gan fuddsoddiadau o ganlyniad mewn ardaloedd penodol. Derbyniwyd y byddai'r materion hynny'n cael eu trafod ymhellach gan gynghorwyr yn y sesiwn ar ariannu'r Cynllun Corfforaethol yr wythnos ganlynol.

**Adroddiad Blynyddol Rheolaeth y Trysorlys 2011/12 (Atodiad 2) –**

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid ac Asedau Adroddiad Blynyddol Rheolaeth y Trysorlys a oedd yn darparu manylion gweithgareddau rheoli trysorlys y Cyngor a throsolwg o'r cefndir economaidd am y flwyddyn. Fe adroddodd hefyd ar oblygiadau risg penderfyniadau a thrafodion y trysorlys a chadarnhaodd gydymffurfiad â chyfyngiadau'r trysorlys a Dangosyddion Darbodus. Fe ymhelaethodd y Pennaeth Cyllid ac Asedau ar yr elfennau canlynol a gynhwysid o fewn yr adroddiad –

- gweithgaredd benthyca a strategaeth i ddefnyddio adnoddau mewnol gan fwyaf yn hytrach na benthyca allanol fel y ffordd fwyaf cost effeithiol o ariannu gwariant cyfalaf
- gweithgaredd buddsoddi a lefel buddsoddiadau'r Cyngor ar ddechrau ac ar ddiwedd y flwyddyn gyda chyfraddau llog isel yn parhau i gael effaith sylweddol ar yr enillion ar fuddsoddi a enillwyd gan y Cyngor; roedd amcanion buddsoddi'n canolbwyntio ar sicrwydd, hylifedd ac arenillion gyda sicrwydd yn brif amcan ar gyfer buddsoddi
- cydymffurfiad â dangosyddion darbodus.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â dibrisiad asedau, dywedwyd wrth yr aelodau nad oedd y Cyngor yn codi tâl dibrisiad drwy gyfraith oherwydd y potensial o drin ffigurau. Yn hytrach fe roddwyd tâl yn erbyn asedau'n seiliedig ar fformiwla benodol. Yn ogystal, nid oedd gwerthiannau asedau wedi eu cynnwys yn y gyllideb refeniw ond roedd yn rhaid eu cadw ar wahân drwy gyfraith.

**Adroddiad Diweddariad ar Reolaeth y Trysorlys 2012/13 (Atodiad 3) –**

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid ac Asedau Adroddiad Diweddariad ar Reolaeth y Trysorlys a oedd yn darparu manylion gweithgareddau rheoli'r trysorlys yn ystod 2012/13 yn cynnwys Rhagolwg Economaidd; Risgiau, Gweithgaredd, Rheolau a gweithgaredd y Dyfodol. Tynnwyd sylw Aelodau at y pwyntiau canlynol -

- y marchnadoedd ariannol cyfnewidiol a'r sefyllfa yn Ewrop
- strategaethau rheoli risg i ddiogelu buddsoddiadau'r Cyngor
- proffil aeddfedrwydd buddsoddiadau'r Cyngor a oedd yn gyfyngedig i saith diwrnod ac o ganlyniad roedd enillion wedi aros yn isel
- archwilio cadarn o reolaeth y trysorlys gan Archwilio Mewnol a Swyddfa Archwilio Cymru'n rheolaidd. Roedd yr adolygiad Archwilio Mewnol a gynhaliwyd ym mis Chwefror 2012 wedi casglu fod prosesau a gweithdrefnau'n gadarn, wedi eu sefydlu'n dda a'u dilyn yn ofalus iawn gyda risgiau allweddol yn cael eu rheoli'n effeithiol

- bwriad y Cyngor oedd lleihau ei weddillion buddsoddi a defnyddio benthyca dros dro fel dull o ariannu gofynion llif arian tymor byr.

Ymateb y Pennaeth Cyllid ac Asedau i gwestiynau aelodau oedd fel a ganlyn –

- adroddodd ar y swyddogion a oedd yn gyfrifol a'r diogelwch a oedd wedi ei sefydlu wrth wneud buddsoddiadau a oedd yn canolbwyntio mwy ar reoli llif arian yn yr amgylchedd ariannol cyfredol yn hytrach na buddsoddi strategol
- yr angen am ddadl ar natur a phwrpas y cronfeydd wrth gefn a'r gweddillion i sicrhau'r defnydd mwyaf effeithiol a oedd yn gysylltiedig â'r drafodaeth a oedd ar ddod ar y Cynllun Corfforaethol a drefnwyd ar ôl y Cyngor Llawn yr wythnos ddilynol.
- nid oedd yna unrhyw ganllawiau ar isafswm gweddillion ac roedd yn fater i Gynghorau unigol osod eu lefel ariannu eu hunain
- cytunai fod benthyca ar gyfer unigolion a chyrff corfforaethol yn gwbl wahanol ac roedd angen i aelodau ystyried yr hyn yr oedden nhw am ei gyflawni a sut yr oedden nhw'n barod i wireddu'r cyflawniadau hynny.

Adroddodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd ei fod wedi derbyn e-bost gan yr Aelod Lleyg Paul Whitham yn dweud ei fod yn falch o nodi'r hyfforddiant a'r diweddariadau a gynlluniwyd ar gyfer aelodau'r pwyllgor. Roedd wedi gofyn hefyd a oedd rheolaeth y trysorlys yn cael asesiad risg blynyddol a ffurfiol. Yn ei anerchiad roedd y Pennaeth Cyllid ac Asedau wedi ymhelaethu ar yr adolygiadau archwilio rheolaidd a gynhaliwyd ar y swyddogaeth ac yr oedd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd wedi cytuno i'w hadrodd yn ôl yn syth i Mr Whitham. Ychwanegodd y Pennaeth Cyllid ac Asedau fod yr adran â'i chofrestr risg ei hun yn ogystal ag archwilio rheolaidd y swyddogaeth a byddai'n adrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn chwarterol.

Cafodd y cyflwyniad dderbyniad da gan aelodau ac ar ei ddiwedd roedd y pwyllgor yn awyddus i ddysgu mwy am swyddogaeth a phrosesau rheolaeth y trysorlys ac amlygwyd yr angen i aelodau gael mwy a gwell dealltwriaeth o'r gweithgareddau hynny. Yn ystod ystyriaeth o'u gofynion hyfforddi cadarnhaodd y Pennaeth Cyllid ac Asedau y gellid cynnal sesiynau cyn cyfarfodydd i adeiladu dealltwriaeth o'r pwnc a byddid yn darparu diweddariadau rheolaidd i'r pwyllgor. Ychwanegodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill ei fod wedi ei gytuno'n flaenorol y byddai hyfforddiant felly'n orfodol i aelodau'r pwyllgor.

I gloi diolchodd y Cadeirydd i'r Pennaeth Cyllid ac Asedau am ei gyflwyniad diddorol ac addysgiadol a'r wybodaeth a roddwyd i roi gwell dealltwriaeth i aelodau a mewnwelediad i weithgareddau rheoli'r trysorlys.

***PENDERFYNWYD*** –

*(a)* *nodi'r Papur ar Fenthyca (Atodiad 1 i'r adroddiad);*

*(b)* *nodi perfformiad swyddogaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor yn ystod 2011/12 a'i gydymffurfiad â'r Dangosyddion Darbodus gofynnol fel y'u hadroddwyd yn Adroddiad Blynyddol Rheoli'r Trysorlys 2011/12 (Atodiad 2 i'r adroddiad)*

(c) *nodi Adroddiad Diweddaru Rheolaeth y Trysorlys 2012/13 (Atodiad 3 i'r adroddiad).*

Daeth y cyfarfod i ben am 12.35 p.m.

**Adroddiad i:** **Y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol**

**Dyddiad y Cyfarfod:** **26 Medi 2012**

**Swyddog Arweiniol:** **Paul McGrady, Pennaeth Cyllid ac Asedau**

**Awdur yr Adroddiad** **Richard Weigh, Prif Gyfrifydd**

**Teitl:** **Cymeradwyo Datganiad o Gyfrifon 2011 / 12**

---

## 1. Ynghylch beth mae'r adroddiad?

Mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol i baratoi datganiad o gyfrifon sy'n cydymffurfio â safonau cyfrifo cymeradwy. Mae'n rhaid i'r cyfrifon archwiliedig gael eu cymeradwyo'n ffurfiol gan aelodau etholedig ar ran y Cyngor.

## 2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

Cafodd y datganiadau ariannol ar gyfer 2011 / 12 eu cymeradwyo, yn amodol ar archwiliad, gan y Prif Swyddog Ariannol fis Mehefin 2012. Mae'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio yn gofyn i'r Cyngor gymeradwyo'r cyfrifon archwiliedig, gan gynnwys barn yr archwilydd allanol, yn ffurfiol erbyn diwedd mis Medi. Cafodd cymeradwyo'r cyfrifon archwiliedig ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol.

Mae'r Datganiad o Gyfrifon yn cael ei baratoi yn unol â Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS). Mae Sefydliad Siartredig Cyllid a Chyfrifeg Cyhoeddus (CIPFA) yn cynhyrchu Côd Ymarfer ar Gyfrifeg Awdurdodau Lleol, yn seiliedig ar IFRS ac mae'r Cyngor wedi paratoi cyfrifon 2011 / 12 yn unol â'r Côd hwnnw.

Bu'n rhaid cydymffurfio â'r IFRS ers 2010 / 11 ac mae safonau neu ofynion newydd yn dal i gael eu cyflwyno. Y newid pennaf yng nghyfrifon 2011 / 12 yw bod dosbarth newydd o asedau wedi'i gyflwyno o'r enw asedau treftadaeth. Mae'r Cyngor, felly, wedi newid ei bolisïau cyfrifo a datgelu yn y cyfrifon i gydymffurfio â'r Côd Ymarfer.

Mae'r cyfrifon yn cynnwys barn gyfrifo a thystysgrif archwilio diamod.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod yr Aelodau etholedig yn cymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon 2011 / 12 sydd yn Atodiad 1 yr adroddiad hwn.

Bydd gofyn i'r Cadeirydd ac i'r Prif Swyddog Ariannol lofnodi'r Cyfrifon a'r Llythyr o Sylwadau yn y cyfarfod.

**4. Manylion yr Adroddiad**

Cafodd y cyfrifon sy'n cael eu cyflwyno eu paratoi i gydymffurfio â'r safonau cyfrifo gofynnol.

Cyfres o safonau cyfrifo sy’n cael eu defnyddio ledled y byd yw’r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Cafodd y Safonau eu datblygu ar gyfer y sector breifat ond, mewn egwyddor, mae'r mwyafrif helaeth o drafodion yr un fath o ran cyfrifo beth bynnag yw'r sector. Gan fod yna rai meysydd lle mae triniaeth gyfrifo'r sector cyhoeddus yn wahanol i’r Safonau rhyngwladol (oherwydd, er enghraifft, gofynion deddfwriaethol) cafodd set ychwanegol o safonau eu cyflwyno ar eu cyfer sy’n cael eu galw yn Safonau Cyfrifo’r Sector Cyhoeddus.

Roedd y cyfrifon ar gael i’w harchwilio yn ôl y gofyn ac maen nhw hefyd wedi bod ar gael i’r cyhoedd eu harchwilio. Bu Swyddfa Archwilio Cymru yn archwilio’r cyfrifon a bydd trosolwg o’u canfyddiadau a’u hasesiad o’r broses yn cael eu cyflwyno mewn adroddiad i’r Pwyllgor.

Arweiniodd y broses archwilio at rai newidiadau technegol ac at gywiriadau a newidiadau eraill. Bydd rhagor o fanylion o'r rhain yn cael eu cyflwyno yn adroddiad yr archwiliwr.

**5. Sut y bydd y penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae cyhoeddi Datganiad o Gyfrifon yn sail i stiwardiaeth a llywodraethu ariannol y Cyngor ac felly mae’n cefnogi holl wasanaethau a blaenoriaethau’r Cyngor.

**6. Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Does dim costau ychwanegol yn codi o ganlyniad i’r adroddiad hwn.

**7. Pa ymgynghori a wnaed?**

Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi gweithio'n agos â’r tîm Cyllid er mwyn sicrhau fod yr archwiliad yn cael ei gwblhau mewn pryd ac yn llwyddiannus.

**8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Unwaith eto, mae'r Datganiad o Gyfrifon wedi derbyn barn archwilio ddiamod. Mae hyn yn gryn lwyddiant o gofio am faint a chymhlethdod y cyfrifon. Gweithiwyd yn galed yn 2010 / 11 i lwyddo i baratoi cyfrifon a fyddai’n cydymffurfio a’r safonau rhyngwladol newydd a bydd y broses o weithredu’r IFRS yn parhau fel y bydd gofynion newydd yn cael eu cyflwyno. Bydd gweithdrefnau mewnol yn cael eu hadolygu’n flynyddol er mwyn sicrhau y bydd y Cyngor yn dal i ddarparu adroddiadau ariannol o ansawdd da.

**9. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i’w lleihau?**

Byddai’r Cyngor yn torri ei ddyletswydd statudol pe na byddai'n gallu cymeradwyo'r cyfrifon erbyn 30 Medi.

**10. Yr Hawl i Benderfynu**

Mae Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn gofyn i'r Cyngor sefydlu trefniadau rheoli ariannol priodol. Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio yn gofyn i'r Cyngor gymeradwyo'r cyfrifon archwiliedig erbyn 30 Medi.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag